

Beth mae'r arbenigwyr yn ei ddweud?

"Mae plant nad ydynt yn mynd trwy system addysg ddwyieithog ar eu colled gan nad yw eu hymennydd yn cael cystal cyfle i ddatblygu, a'u bod yn colli aml i gyfle mewn bywyd."

*Yr Athro Jim Cummins
Sefydliad Ontario ar gyfer Astudiaethau
Addysgol, Prifysgol Toronto*

"Mae plant dwyieithog yn fwy tebygol o gael gwell canlyniadau arholiadau"

Richard Gartner - The Independent

"Mae tystiolaeth bendant yn dangos bod plant dwyieithog yn well am ganolbwyntio a deall cysyniadau"

Gwefan Newyddion y BBC

'Dwi'n falch o'r Gymraeg'

"Dwi'n gweld y byd o ddau gyfeiriad. Mae'r Gymraeg wedi agor drysau ac wedi rhoi pâr arall o adenydd i fi"

Rhys Ifans



Rhowch y dechrau gorau posib i'ch plentyn - ymunwch ag ymgyrch Siarter Iaith Gwynedd heddiw!

Siarter Iaith Gwynedd



Meddylwch am iaith yn nhermau...




- Mi fedrwch fynd i lefydd ar un olwyn (iaith).



- Felly hefyd ar olwyn fawr ac olwyn fach.



- Ond pan fo'r ddwy olwyn yr un maint ac mewn cyflwr da, mi ewch ymhellach o lawer.



'HOFFWCH' ni ar Facebook - Siarter Iaith Gymraeg



Dilynwch ni ar Twitter @siarteriaith

Rhannwch neges Siarter Iaith Gwynedd!



Mae pobl sy'n siarad mwy nag un iaith yn;

- elwa'n economaidd
- elwa'n addysgol
- elwa'n gymdeithasol
- elwa'n ddiwylliannol!

Pwrpas Siarter iaith Gwynedd yw sicrhau bod ein plant yn gwneud defnydd llawn o'u Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Addewid Gwynedd:

Bydd pob plentyn yng Ngwynedd yn gadael yr ysgol gynradd yn gwbl ddwyieithog.

'Beth ydy mantais dwy iaith?'



MANTAIS ECONOMAIDD

Mae pobl ddwyieithog yng Nghymru yn ennill rhwng 8% a 10% yn fwy mewn cyflog pob blwyddyn o'i gymharu â phobl sy'n siarad un iaith yn unig.



MANTAIS ADDYSGOL

Mae ymchwil academaidd yn cadarnhau bod plant dwyieithog yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg ac yn tueddu i sgorio'n well mewn profion IQ na phlant sy'n siarad un iaith yn unig.



MANTAIS GYMDEITHASOL

Mae siarad dwy iaith yn agor y drws i gymuned, byd gwaith a bywyd cymdeithasol llawer mwy amrywiol. Dwy iaith, dwywaith y dewis!



MANTAIS DDIWYLLIANNOL

Yn hanes, yn fiwsig, yn llyfrau, yn fyd teledu - mae gan blentyn dwyieithog fwy o ddewis. Dau fyd iaith, dwy ffenest ar y byd!

GWYNEDD, EWROP A'R BYD

Mae 65% o bobl Gwynedd yn siarad Cymraeg a Saesneg.

Mae 65% o bobl cyfandir Ewrop yn siarad o leiaf ddwy iaith.

Mae dros ddwy ran o dair o bobl y byd yn siarad dwy iaith neu fwy!

Mae'n haws i rai sy'n siarad dwy iaith ddysgu ieithoedd eraill.

SUT ALLWCH CHI YMUNO Â'R YMGYRCH?

Anogwch eich plant i siarad Cymraeg:

- ✓ yn y cartref
- ✓ wrth chwarae
- ✓ efo ffrindiau
- ✓ efo'r teulu
- ✓ yn y siop ac ar y stryd.

Mae Siarter Iaith Gwynedd yn arwain y ffordd - dyma'r cynllun cyntaf o'i fath yng Nghymru!

Cwestiynau cyffredin...

"Fydd dysgu dwy iaith yn effeithio ar y Saesneg?"



"Na! Petai chi'n chwarae pêl-droed ni fyddai hyn yn amharu ar eich gallu i nofio - yr un ydy'r rheol efo iaith.

"Fydda hi ddim yn well dysgu iaith sy'n fwy 'defnyddiol' na'r Gymraeg?"



"Mae mwy o swyddi nag erioed o'r blaen yng Nghymru yn gofyn am sgiliau dwyieithog. Mae'r Gymraeg yn sgil werthfawr yn y gweithle."



"Ar gyfartaledd, mae canlyniadau profion ac arholiadau Saesneg plant **dwyieithog** yn uwch na chanlyniadau plant sy'n siarad **un** iaith yn unig."

"Mae ymchwil yn dangos bod disgyblion sy'n rhugl mewn **dwy iaith** yn dueddol o wneud yn well mewn pynciau eraill yn yr ysgol hefyd."